# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 9 Mawrth 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 328(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(60 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn ateb cwestiynau am 15 munud olaf y sesiwn hon ar faterion yn ymwneud â'i chyfrifoldebau.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y wybodaeth ddiweddaraf am Frechiadau COVID-19

(30 munud)

## 4 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

(15 munud)

**NDM7614** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Chwefror 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 5-8 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân - Gohiriwyd tan 16 Mawrth 2021

(0 munud)

## 5 Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021

Ni chyflwynwyd cynnig.

## 6 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021

Ni chyflwynwyd cynnig.

## 7 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021

Ni chyflwynwyd cynnig.

## 8 Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021

Ni chyflwynwyd cynnig.

## 9 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021

(15 munud)

**NDM7616** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021

(15 munud)

**NDM7615** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2021.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 11 Dadl: Trydedd Gyllideb Atodol 2020-21

(30 munud)

**NDM7622** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30:

1. Yn cymeradwyo'r Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth, 2 Mawrth 2021.

2. Yn nodi bod y categori adnoddau cronnus ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Ran 2 o Atodlen 4 i Gynnig y Gyllideb Atodol ar dudalen 22 wedi'i ddiwygio i gynnwys 'ad-dalu arian pensiwn dros ben' fel yr adlewyrchir yn y Memorandwm Esboniadol a gyflwynwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Pwyllgor Cyllid i'w ystyried yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2021.

3. Yn nodi ymhellach yr addasiadau cyfatebol yn Atodlen 6 ar dudalennau 27 a 28 i gysoni'n gywir yr adnoddau y gofynnir amdanynt drwy leihau DEL Adnoddau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru £974,000, cynyddu'r AME Adnoddau £974,000 a chynyddu'r Gronfa Adnoddau DEL heb ei Dyrannu £974,000.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

(vi) manylion am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 - 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y nodwyd yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

– nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 12 Dadl: Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2021-22

(15 munud)

**NDM7611** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag adran 116D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn cytuno ar y penderfyniad ynghylch cyfraddau Cymru ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru 2021-22 fel a ganlyn:

a) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd sylfaenol y dreth incwm yw 10c;

b) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd uwch y dreth incwm yw 10c; ac

c) y gyfradd Gymreig a gynigir ar gyfer cyfradd ychwanegol y dreth incwm yw 10c.

## 13 Dadl: Cyllideb Derfynol 2021-22

(60 munud)

**NDM7613** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25, yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2021.

## 14 Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2021-22

(60 munud)

**NDM7617** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2021-22 (Setliad Terfynol – Cynghorau) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2021.

## 15 Dadl: Setliad yr Heddlu 2021-22

(30 munud)

**NDM7612** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2021-2022

(Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Chwefror 2021.

## 16 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

(15 munud)

**NDM7627** Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3

## 17 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 04/03/2021 i'w hateb ar 09/03/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

1 OQ56423 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflawni cynllun adfer COVID-19 ar gyfer busnesau?

**David Rees** *Aberafan*

2 OQ56422 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad i addysg bellach ac uwch i weithwyr yng Nghymru a allai fod yn bwriadu ailhyfforddi?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OQ56414 **(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wireddu potensial economaidd Casnewydd yn llawn?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

4 OQ56393 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o berfformiad Cadw ledled Gogledd Cymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

5 OQ56385 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y defnydd o gyllid sydd heb ei ddyrannu yng nghyllideb flynyddol y llynedd?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

6 OQ56425 **(e)**

Pa gamau y bydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau bod lles plant a phobl ifanc yn cael ei flaenoriaethu wrth ystyried llacio'r cyfyngiadau symud?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

7 OQ56426 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu ei buddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf?

8 **Carwyn Jones** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

OQ56388 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Maes Awyr Caerdydd?

9 **Leanne Wood** *Rhondda*

OQ56421 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth a roddwyd i brosiect Rhondda Skyline?

10 **Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56417 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfer gwasanaethau iechyd clinigol arfaethedig mewn ysbytai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

11 **Rhianon Passmore** *Islwyn*

OQ56420 (e)

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo hawliau cymunedau LGBT+ yn Islwyn?

12 **Mick Antoniw** *Pontypridd*

OQ56418 (e)

Pa gymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i'r sector twristiaeth drwy gydol pandemig y coronafeirws?

## Y DIRPRWY WEINIDOG A'R PRIF CHWIP

1 **Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ56381 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu hawliau dynol pobl anabl?

2 **Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

OQ56405 (w)

A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad am ymdrechion i atal caethwasiaeth fodern yng ngogledd Cymru?

3 **Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ56396 (e) Tynnwyd yn ôl

Pa gamau pellach y bydd y Dirprwy Weinidog yn eu cymryd i hyrwyddo mwy o gydraddoldeb rhywiol yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

4 OQ56401 **(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu cyfraniad y sector gwirfoddol a gwirfoddoli yn ystod y pandemig?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ56413 **(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r trydydd sector yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ56424 **(e)**

A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad am ddiogelu hawliau dynol pobl hŷn yng Nghymru?